

Ymgynghoriad ar arferion gorau hygrychedd – crynodeb Cymraeg clir

Cyflwyniad

Ofcom yw'r rheoleiddwr ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys teledu a gwasanaethau ar-alw. Rydym yn rheoleiddio amrywiaeth o wasanaethau fideo ar-alw ("VoD", gan gynnwys gwasanaethau dal-i-fyny fel ITV X a Channel 4, a gwasanaethau tanysgrifio fel Now TV ac Amazon Prime.

Rydym yn ceisio gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn gallu mwynhau gwasanaethau teledu a fideos ar-alw. Mae hyn yn golygu cynnwys nodweddion fel isdeitlo, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion mewn rhaglenni. Gwasanaethau mynediad yw'r enw a roddir ar y nodweddion hyn.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ddarlledwyr ddarparu gwasanaethau mynediad ar rywffaint o'u rhaglenni – rydym yn egluro beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud yn ein Cod Gwasanaethau Mynediad ("y Cod"). Nid oes rheolau tebyg eto ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw, ond rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth i'w cyflwyno.

Rydym hefyd yn darparu canllawiau arfer gorau ("y canllawiau") sy'n rhoi cyngor i ddarlledwyr ar wneud gwasanaethau mynediad o ansawdd uchel sy'n hawdd eu defnyddio.

Rydym yn awgrymu y dylid gwneud newidiadau i'r Cod ac i'r canllawiau, gan gynnwys cynnig yn y canllawiau ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw.

Crynodeb yn unig yw'r ddogfen hon. Mae'r ymgynghoriad llawn ar gael ar wefan Ofcom. Yn y ddogfen hon, mae "darparwyr" yn golygu darlledwyr a darparwyr gwasanaethau fideo ar-alw.

Beth nesaf?

Rydym eisiau clywed eich barn. A fyddech cystal â'u hanfon i accessibility@ofcom.org.uk erbyn 21 Medi 2023.

Byddwn yn ystyried eich barn wrth ysgrifennu ein canllawiau newydd.

Newidiadau i'r cod

Rydym yn awgrymu'r newidiadau hyn i wneud rhai o'r rheolau ar gyfer darlledwyr yn gliriach.

Ansawdd

Pan fydd rhaid i ddarlledwyr ddarparu rhywfaint o wasanaethau mynediad, rydym eisiau pwysleisio bod rhaid iddynt hefyd fod o ansawdd digon da.

Ymwybyddiaeth

Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda gwasanaethau mynediad, rydym eisiau gwneud yn siŵr bod darlledwyr yn gwneud pob ymdrech i ddweud wrth eu gwylwyr beth sy'n digwydd gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw.

Newidiadau eraill

Rydym yn egluro bod y gofynion hyn yn berthnasol ni waeth sut mae sianel deledu yn cael ei gwyllo (ar yr amod ei bod yn cael ei rheoleiddio gan Ofcom). Felly, mae hynny'n golygu a yw'n cael ei wyllo drwy Freesat neu Virgin, er enghraifft.

Gall y Llywodraeth ddweud wrth ddarlledwyr am wneud cyhoeddiadau brys pan fydd argyfwng cenedlaethol. Rydym am ddiweddarau'r Cod i atgoffa darlledwyr y dylai unrhyw gyhoeddiadau o'r fath fod yn hygyrch i bobl anabl.

Newidiadau i ganllawiau arfer gorau

Canllawiau cyffredinol

Mae ein canllawiau'n cynnwys canllawiau cyffredinol a chanllawiau ar wasanaethau mynediad penodol (isdeitlo, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion). Rydym yn bwriadu cryfhau ein canllawiau cyffredinol yn y meysydd canlynol:

Cynulleidfaoedd

Mae ein canllawiau presennol yn canolbwyntio ar sicrhau bod rhaglenni ar gael i bobl sy'n colli eu golwg a/neu gollu eu clyw. Ond mae gan Ofcom ddyletswydd yn awr i annog darparwyr i sicrhau bod rhaglenni ar gael i bobl anabl (ac nid i'r rheini sy'n colli eu golwg a'u clyw yn unig). Felly, rydym eisiau annog darparwyr i ystyried defnyddiau ehangach, gan gynnwys gan bobl ag anabledau gwybyddol a niwroddatblygiadol.

Rydym hefyd yn deall y gallai cynulleidfaoedd gwahanol fod â dewisiadau gwahanol (er enghraifft, pobl sy'n colli eu golwg a'u clyw, efallai y byddai'n well ganddynt gael is-deitlau mwy). Ein nod yw annog darparwyr i gynnig opsiynau addasu (er enghraifft o ran maint is-deitlau/ lliw/ ffont) a dewis i wylwyr, lle bo hynny'n bosibl.

Strategaethau

Rydym yn gwybod bod cynulleidfaoedd eisiau gweld mwy o wasanaethau mynediad ar deledu a rhaglenni ar-alw, ond mae'n gallu bod yn rhwystredig iawn pan fydd y rhain o ansawdd gwael. Felly, rydym yn ceisio annog darparwyr i feddwl am greu mwy o wasanaethau mynediad ar gyfer eu rhaglenni, ond hefyd i sicrhau bod y rhain o ansawdd da.

Ynghyd ag isdeitlo, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion, rydym yn annog darparwyr i ystyried ffyrdd gwahanol o wneud rhaglenni'n hygyrch, er enghraifft gwneud rhaglenni yn Makaton ar gyfer pobl ag anabledau dysgu.

Mae angen i ddarparwyr gynllunio'n ofalus sut i wella hygyrchedd eu gwasanaethau, ac felly rydym yn ceisio eu hannog i wneud cynlluniau gweithredu, gan siarad â chynulleidfaoedd am yr hyn y dylai'r rhain ei gynnwys.

Blaenoriaethu Rhaglenni

Mae ein canllawiau presennol yn dweud y dylai darlledwyr ofyn i elusennau pa raglenni sydd bwysicaf i'w gwneud yn hygyrch. Rydym hefyd yn dweud y dylent sicrhau bod gwasanaethau mynediad yn cael eu cynnwys ym mhob rhaglen mewn cyfres. Rydym yn cynnig ychwanegu:

- Dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth am argyfyngau cenedlaethol a lleol yn cael ei hisdeitlo, ei siarad ac yn cynnwys iaith arwyddion
- Dylai darparwyr sicrhau eu bod yn gwneud achlysuron o bwysigrwydd cenedlaethol yn hygyrch (er enghraifft, digwyddiadau fel angladd Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II)

Rydym hefyd yn gwybod bod cynulleidfaoedd yn teimlo'n rhwystredig oherwydd bod gwasanaethau mynediad yn cael eu hychwanegu'n hwyr at raglenni ar-alw. Felly, ein nod yw annog darparwyr i neilltuo amser i ychwanegu gwasanaethau mynediad at raglenni ar-alw cyn iddynt gael eu rhyddhau.

Cyfathrebu ynghylch argaeledd

Rydym am gryfhau ein cyngor i ddarparwyr ar sicrhau bod cynulleidfaoedd yn ymwybodol o argaeledd gwasanaethau mynediad. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu â chynulleidfaoedd yn gyflym os bydd rhywbeth yn mynd o'i le a chyfathrebu mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys gwneud cyhoeddiadau ar y teledu ac ar-lein.

Rydym hefyd yn bwriadu ychwanegu cyngor newydd i ddarparwyr gwasanaethau ar-alw, gan gynnwys sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i raglenni hygyrch ar y gwasanaethau hyn, er enghraifft drwy ychwanegu categorïau ar gyfer cynnwys â disgrifiadau sain a chynnwys ag iaith arwyddion.

Gwneud rhaglenni hygyrch

Rydym am annog darparwyr i ystyried hygyrchedd wrth greu gwasanaethau mynediad, ac hefyd wrth wneud rhaglenni. Er enghraifft, gallai darparwyr wneud rhaglenni'n fwy hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg drwy gael cyflwynwyr i ddarllen testun ar y sgrin (fel sgoriau mewn rhaglenni chwaraeon neu ganlyniadau mewn sioeau cwis).

Mae pobl anabl yn adlewyrchu cyfansoddiad cymdeithas y DU sydd ag amrywiaeth o brofiadau a chefnidiroedd. Rydym yn bwriadu annog darparwyr i sicrhau bod timau sy'n ymwneud â chreu rhaglenni hygyrch, gan gynnwys disgrifiadau sain a dehonglwyr, yn adlewyrchu amrywiaeth eu cynulleidfaoedd. Bydd hyn yn golygu bod rhaglenni hygyrch yn gwasanaethu eu cynulleidfaoedd yn well.

Monitro ansawdd

Mae ein canllawiau'n dweud y dylai darlledwyr fonitro ansawdd eu gwasanaethau mynediad. Rydym am ychwanegu y dylai darparwyr ystyried defnyddio offer penodol i helpu i fonitro ansawdd isdeitlau, er enghraifft offer sy'n helpu i fesur cywirdeb eu his-deitlau.

Rydym hefyd yn bwriadu dweud y dylai darparwyr geisio adborth gan gynulleidfaeodded yn rhagweithiol ar ansawdd eu rhaglenni, yn hytrach na dibynnu ar gwynion yn unig. Dylai ffyrdd o roi adborth fod yn hygyrch hefyd (er enghraifft, drwy gynnig amrywiaeth o ffyrdd o gwyno fel e-bost/ffôn/post/cyfnewid fideo ac ymateb mewn iaith syml).

Isdeitlo

Cyflymder yr is-deitlau

Mae ein canllawiau presennol yn argymhell cyflymder uchaf ar gyfer isdeitlau (160-180 gair y funud ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn fyw). Mae cadw at derfyn cyflymder yn golygu na fydd yr isdeitlau'n cyfateb i'r lleferydd gair am air pan fydd y lleferydd yn gyflym iawn. Fodd bynnag, rydym yn deall bod pobl sy'n colli eu clyw eisiau cael gafaél ar yr holl wybodaeth sy'n cael ei siarad. Felly, rydym yn bwriadu rhoi cyngor yn lle'r terfyn cyflymder y dylai isdeitlau, yn gyffredinol, gyd-fynd â'r hyn sy'n cael ei ddweud mor agos â phosibl. Fodd bynnag, rydym hefyd eisiau annog darparwyr i feddwl am y gynulleidfa debygol ar gyfer eu rhaglenni, oherwydd efallai y bydd rhai pobl yn ei chael yn anoddach i ddilyn is-deitlau cyflym.

Oedi mewn is-deitlau byw

Fel arfer, mae isdeitlau ar raglenni byw, fel newyddion a chwaraeon, yn cael eu dal yn ôl yn fwy nag isdeitlau ar raglenni sydd wedi cael eu paratoi ymlaen llaw fel drama. Mae ein canllawiau presennol yn dweud na ddylai'r oedi rhwng yr is-deitlau a'r lleferydd fod yn fwy na 3 eiliad. Fodd bynnag, mae darlledwyr yn dweud wrthym nad yw hyn yn bosibl gyda'r technolegau sydd ar gael ar gyfer gwneud isdeitlau byw. Rydym yn bwriadu diweddarau'r oedi rydym yn ei argymhell i 4.5 eiliad ar gyfartaledd ar draws rhaglenni byw. Rydym yn credu bod hyn yn fwy realistig ac felly bydd yn fwy effeithiol o ran annog darlledwyr i wella.

Sut i gyflwyno isdeitlau

Mae ein canllawiau presennol yn cynnwys cyngor penodol ar sut mae isdeitlau'n cael eu cyflwyno ar y teledu (er enghraifft ar ddefnyddio mathau a meintiau penodol o ffontiau). Fodd bynnag, mae pobl nawr yn gwylio cynnwys mewn ffyrdd gwahanol ffyrdd, fel ar setiau teledu mwy a sgriniau ffonau symudol llai. Gallai hyn fod yn addas ar gyfer gwahanol fathau o isdeitlo (er enghraifft, efallai y bydd isdeitlau sy'n cymryd cyfran fwy o'r sgrin yn haws eu gweld ar ddyfeisiau symudol). Felly, yn hytrach, rydym eisiau canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i gynulleidfaeodded drwy ddweud y dylai isdeitlau fod yn hawdd eu darllen heb amharu ar wybodaeth allweddol ar y sgrin. Rydym hefyd yn bwriadu annog darparwyr i ystyried opsiynau addasu i helpu i fynd i'r afael â gwahanol anghenion.

Mae gan wasanaethau ar-alw drwy danysgrifio (fel Netflix ac Amazon Prime) a darlledwyr yn y DU ffyrdd gwahanol o gyflwyno isdeitlau. Er enghraifft, er bod darlledwyr yn y DU yn aml yn defnyddio lliwiau i ddynodi siaradwyr lluosog ar eu rhaglenni (fel yr argymhellir yn ein canllawiau presennol), mae gwasanaethau tanysgrifio yn gyffredinol yn defnyddio cysylltnodau/lleoliad. Neu, er bod darlledwyr yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio'r symbol # i ddynodi bod cerddoriaeth yn chwarae (yr ydym yn ei hargymhell ar hyn o bryd), mae gwasanaethau tanysgrifio yn aml yn defnyddio symbol nodyn cerddorol. Rydym am ganiatáu ar gyfer dulliau gwahanol yn y canllawiau newydd, ond rydym

am egluro y dylai gwybodaeth nad yw'n llafar fel seinyddion, synau a cherddoriaeth gael ei ddynodi yn glir.

Disgrifiadau Sain

Arddull Disgrifiadau Sain

Mae ein canllawiau'n dweud y dylai Disgrifiadau Sain fod yn glir – 'yn ddiymhongar ac yn amhersonol'. Ond rydym yn teimlo bod rhai pobl yn ffafrio disgrifiadau sain mwy creadigol ar gyfer rhai mathau o raglenni, sy'n cyd-fynd â naws y rhaglen. Felly, rydym eisïau gofyn i ddarparwyr feddwl am wahanol fathau o Ddisgrifiadau Sain a gwneud yn siŵr eu bod yn gofyn i'w cynulleidfaoedd beth maen nhw ei eisïau.

Beth ddylid ei ddisgrifio

Dywed ein canllawiau y dylai Disgrifiadau Sain ddisgrifio gwybodaeth weledol sy'n berthnasol i'r plot. Rydym eisïau ychwanegu y gall fod yn bwysig disgrifio pethau eraill hefyd, fel amrywiaeth y cymeriadau a'r cyflwynwyr – pethau fel hil, anabledd a rhywedd. Fel pawb arall, efallai y bydd pobl sydd wedi colli eu golwg o wahanol gefndiroedd eisïau gwybod pan fydd pobl fel nhw yn cael eu cynrychioli ar y sgrin.

Beth arall all helpu

Ar gyfer rhai mathau o raglenni, nid yw Disgrifiadau Sain mor ddefnyddiol. Er enghraifft, lle mae llawer o siarad, mae'n anodd cael lle i ddisgrifio beth arall sy'n digwydd.

Rydym am i ddarparwyr feddwl am ffyrdd eraill o sicrhau bod pobl sy'n colli eu golwg yn gallu dilyn rhaglenni. Er enghraifft:

- Gallent ddefnyddio 'cyflwyniadau sain' sy'n disgrifio cymeriadau ar ddechrau'r rhaglen.
- Ar gyfer fideos ar-alw, gallent ddefnyddio 'disgrifiad sain estynedig' lle gallwch rew'r fideo i ffitio mwy o Ddisgrifiadau Sain cyn i'r rhaglen ddechrau eto.
- Pan fydd llawer o siarad, gallent wneud yn siŵr bod unrhyw destun ar y sgrin yn cael ei ddarllen yn uchel hefyd (er enghraifft, gan y cyflwynydd mewn sioeau cwis).
- Mewn rhaglenni newyddion, gallent wneud yn siŵr bod unrhyw is-deitlau ieithoedd tramor yn cael eu darllen yn uchel hefyd.

Iaith arwyddion

Pa iaith arwyddion ar ba raglenni?

Ar gyfer darlledwyr sy'n gorfod darparu iaith arwyddion, mae ein canllawiau'n dweud y dylent fel arfer ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain ("BSL"). Ond rydym hefyd yn dweud eu bod yn gallu defnyddio Makaton neu Saesneg gyda chymorth arwyddion os ydyn nhw'n gwybod mai dyma beth fyddai ar eu gwylwyr byddar ei eisïau. Dywedwyd wrthym nad yw'r rhain yn cael eu defnyddio gan bobl fyddar fel arfer, felly rydym nawr am ei gwneud yn glir y dylai darlledwyr ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain yn unig ar gyfer eu gofynion cyfreithiol. Rydym yn dal i fod eisïau eu hannog i ddarparu rhaglenni eraill gyda Makaton neu Saesneg â chymorth arwyddion.

Gall darlledwyr llai ddewis a ydynt am gyfieithu eu rhaglenni i iaith Arwyddion Prydain (“dehongliad iaith arwyddion”), gwneud eu rhaglenni eu hunain wedi’u cyflwyno a’u gweithredu mewn iaith Arwyddion Prydain (“cyflwyno mewn iaith arwyddion”) neu drefniadau gwahanol, er enghraifft ariannu Ymddiriedolaeth Ddarlledu Iaith Arwyddion Prydain sy’n gwneud ei rhaglenni ei hun.

Rydym eisiau i ddarlledwyr a darparwyr fideos ar-alw ofyn i’w cynulleidfaoedd pa fath o raglenni iaith Arwyddion Prydain y bydden nhw’n eu ffafrio. Mae dehongliad iaith arwyddion yn gadael i bobl fyddar fwynhau rhaglenni poblogaidd wedi’u gwneud mewn ieithoedd eraill (gan gynnwys Saesneg) a gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Fel arall, rydym yn deall y gallai fod yn well gan bobl fyddar raglenni iaith arwyddion, yn enwedig plant ifanc sy’n dysgu iaith Arwyddion Prydain.

Credwn y dylai darparwyr geisio cynnwys siaradwyr iaith Arwyddion Prydain mewn rhaglenni eraill hefyd, yn ogystal â’r arwyddion y mae’n rhaid iddynt eu darparu. Pan fyddant yn gwneud hyn, dylid cadw dwylo ac wyneb defnyddwyr iaith Arwyddion Prydain yn y saethiad fel bod modd eu deall.

Ansawdd rhaglenni ag iaith arwyddion

Mae ein canllawiau yn dweud y dylai iaith Arwyddion Prydain fod ar amser gyda’r iaith sy’n cael ei siarad cyn belled ag y bo modd, ac y dylai’r dehonglydd ddangos pwy sy’n siarad yn ogystal ag effeithiau sain pwysig. Rydym am ychwanegu y dylai’r arwyddion fod yn gywir ac yn hawdd eu deall, gan roi syniad o dôn y siaradwr.

Rydym eisiau cadw ein canllawiau cyfredol sy’n nodi y dylai’r dehonglydd iaith arwyddion gymryd o leiaf 1/6 rhan o’r sgrin – dylent fod yn ddigon mawr i weld eu dwylo a’u hwyneb, ond nid mor fawr nes eu bod yn amharu ar y rhaglen. Ond rydym hefyd yn credu y dylai darparwyr gofio y gallai eu rhaglenni gael eu gwyllo ar sgriniau o wahanol faint (er enghraifft, ar ffonau symudol neu sgriniau mawr iawn yn y cartref).